

Bwletin Awdurdod S4C
- Cyfarfod 281 – 30 Medi 2005,
- S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 30 Medi, 2005.

Prif Weithredwr

Mynegodd y Cadeirydd ei diolch mawr i Huw Jones yn dilyn 12 mlynedd fel Prif Weithredwr S4C.

Ysgrifennydd

Croesawyd Elin Morris fel Ysgrifennydd yr Awdurdod yn ystod cyfnod mamolaeth Nerys Hopkins.

BBC

Nodwyd bod S4C yn aros i glywed gan y BBC ynglŷn â'r drafft o'r cytundeb cyflenwi rhaglenni a anfonwyd iddynt ar 19 Medi. Angen cytuno ffurf y cytundeb erbyn diwedd mis Hydref, a gobeithir ei gyflwyno i'r Awdurdod i'w gymeradwyo yng nghyfarfod mis Hydref.

Nodwyd bod yna lefel arall o sgysiau yn cael eu cynnal gyda'r BBC ynglŷn â meysydd cydweithio/partneriaeth strategol.

S4C Rhyngwladol

Nodwyd fod y contractwr llwyddiannus am y cytundebau gwerthiant rhaglenni a brocera cyd-gynyrchiadau wedi cynnig gwaith i ddau aelod o staff S4C. Mae S4C wedi cytuno caiff y contractwr aros yn adeilad S4C Rhyngwladol tan ddiwedd marchnad gwerthu rhaglenni MIPCOM yn Cannes.

Polisi Amddiffyn Plant

Penderfynwyd y dylai pob aelod o staff S4C ddarllen Polisi Amddiffyn Plant S4C a chadarnhau eu bod wedi ei ddeall. Hyn i gael ei weithredu maes o law drwy'r meddalwedd newydd ar ffurf cwestiynau sydd i'w gyflwyno gyda chymorth yr archwilwyr mewnol.

Newid i Ddigidol a Diffodd Analog

Nodwyd fod diffodd analog i fod i ddigwydd yng Nghymru yn ail hanner 2009. Nodwyd pwysigrwydd addysgu gwylwyr a siopau gwerthu setiau teledu am y newid.

Cyflwyniad ar y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

Rhoddodd Dafydd Downes gyflwyniad ar oblygiadau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i S4C.

Materion Eraill

Yn ogystal trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Rhaglenni/Cynnwys
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a Chofnodion Cyfarfod y Grŵp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 21 Hydref 2005
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil